



Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd

Rhaglenni Gradd **Israddedig**

www.caerdydd.ac.uk/gwyddorau-gofal-iechyd

Gwnewch wahaniaeth



Barnwyd bod 100% o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym o safon ryngwladol, o leiaf, a bod 94% ohoni'n "ryngwladol-ragorol" neu'n "arwain y byd".

Ffynhonnell: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014

Mae 99% o'n graddedigion mewn gwaith cyflogedig a/neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl graddio.

Ffynhonnell: HESA 2016/17



"Mae Undeb y Myfyrwyr ar Gampws Parc y Mynydd Bychan yma i ymgysylltu â chi a'ch cefnogi yn ystod eich amser ym Mhrifysgol Caerdydd – boed hynny drwy'r 250 o glybiau a chymdeithasau sydd gennym; rhoi cyngor ar ymholiadau sy'n ymwneud â thai a materion academiaidd; neu fanteisio ar ein mannau cymdeithasol a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Ceir cymdeithasau gofal iechyd a thimau chwaraeon penodol sy'n addas ar gyfer ffordd brysur o fyw Myfyriwr lechyd yn ogystal â'r holl weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer pob myfyriwr. Bydd gennych atgofion am eich amser yng Nghaerdydd a'r Mynydd Bychan am flynyddoedd ar ôl i chi adael y Brifysgol, felly gadewch i ni wneud yn siŵr eich bod yn mwynhau mas draw!"

Jennifer Kent, Is-lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan 2018-19



Mae gennym rwydwaith cydweithio byd-eang cryf sy'n golygu bod ein myfyrwyr yn gallu mwynhau'r cyfle i brofi gwaith clinigol dramor.

“Rwy'n hoff iawn o'r ffaith bod Ysbyty Athrofaol Cymru wrth ymyl Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd. Mae'n gwneud i chi deimlo fel myfyriwr nyrs o'r diwrnod cyntaf.”

Laura Reid, Myfyriwr Nyrsio Iechyd Meddwl

Croeso i'n teulu

Gydag adeiladau yn yr ysbyty, naws gymunedol iawn, a ffrindiau am oes, ni fu erioed amser gwell i'ch croesawu i'n Hysgol.

Byddwch yn astudio naill ai yn ein hadeilad yng nghanol y ddinas neu ein hadeilad ar Gampws Parc y Mynydd Bychan, sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru, sef y trydydd ysbyty mwyaf yn y DU.

Mae ein hadeilad Tŷ Eastgate bum munud ar droed o ganol dinas Caerdydd ac mae'n elwa ar fod yn agos at Barc Cathays y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

Mae ein hadeilad Tŷ Dewi Sant ar Gampws Parc y Mynydd Bychan ger 100 erw o barcdir a meysydd chwarae. Mae ein Hysgol yn rhannu'r safle gyda'r Ysgol Meddygaeth a'r Ysgol Deintyddiaeth sy'n ei gwneud hi'n ganolbwynt ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd ac mae ganddi deimlad cymunedol go iawn.

Cewch ddysgu mewn amgylchedd amlddisgyblaethol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan sy'n golygu y byddwch yn astudio ochr yn ochr ag eraill sydd mewn proffesiynau gofal iechyd gwahanol nad yw llawer o sefydliadau eraill yn eu

cynnig. Mae dysgu oddi wrth eich gilydd yn y ffordd hon yn golygu eich bod yn cael profiad o weithio rhyngbroffesiynol cyn i chi gymhwyso.

Mae gan bob Ysgol ei hadnoddau a'i chyfleusterau arbenigol ei hun. Mae'r mannau astudio a chyfleusterau TG ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r darlithfeydd, ystafelloedd seminar a llyfrgelloedd hefyd ar y campws. Yn ogystal, cewch fwynhau'r lolfra IV; sef ardal bwrpasol i'n myfyrwyr ymlacio a chael rhywbeth i fwyta.

Mae hefyd rai preswylfeydd preifat a gwasanaethau dros dro Undeb y Myfyrwyr hefyd ar Gampws Parc y Mynydd Bychan, a gall myfyrwyr fanteisio ar y nifer o amwynderau chwaraeon allanol, gan gynnwys pwll, cyrtiau sboncen a badminton ac ystafell ffitrwydd.

Cynnwys

Camu drwy ein drysau	2
Rydym yn sicrhau eich bod yn cael profiad bywyd go iawn	4
Dysgu unigryw	6
Ariannu cwrs gofal iechyd	7
Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu	8
Bydwreigiaeth	9
Nyrsio Oedolion	10
Nyrsio Plant	11
Nyrsio Iechyd Meddwl	12

Therapi Galwedigaethol	13
Ymarfer Gofal Llawdriniaethol	14
Ffisiotherapi	15
Radiotherapi ac Oncoleg	16
Sut i ddechrau eich taith gyda ni	17
Prifddinas	18
Prifysgol flaenllaw	19
Byw yng Nghaerdydd	20
Ceisiadau	21

Camu drwy ein drysau





O'r cam cyntaf rydych chi'n camu drwy ein drysau, rydym wedi gwneud yn siŵr bod ein hamgylchedd yn bodloni eich holl anghenion, i sicrhau eich bod yn dod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol gorau y gallwch chi fod.

Mae Ystafell Efelychu Caerleon yn adlewyrchu ward mewn ysbyty go iawn. Ceir pedwar man sydd â thechnolegau efelychu plant, oedolion a mamolaeth pwrpasol megis; efelychwyr cleifion sy'n blant ac yn oedolion sy'n dynwared ymatebion y corff i salwch, gofal a thriniaeth. Ceir hefyd efelychwyr SIM mom a SIM baby sy'n dynwared nifer o senarios yn ystod geni plant. Yn ogystal, mae gan yr ystafell fythau cyfathrebu a luniwyd yn bwrpasol sydd ag offer clyweledol ynddynt fel bod nyrsys yn gallu rhoi sylw i feysydd emosiynol sy'n adlewyrchu ymarfer nyrsio iechyd meddwl yn y byd go iawn.

Dilynwch ni i'n labordai Ffisiotherapi, sy'n eich galluogi chi i ymarfer eich sgiliau cyn mynd ar leoliad. Byddwch yn gallu defnyddio offer uwch-dechnoleg megis peiriant rhedeg gwrth-ddisgyrchiant a chanolfan recordio symudiadau.

Camwch i'n Hystafell Gweithgareddau Bywyd Bob Dydd, sy'n adlewyrchu cartref yn y byd go iawn, ac mae ein clinig amlsynhwyraidd i blant yn eich galluogi chi i weld a chynorthwyo asesiadau a thriniaethau cleifion go iawn sydd ag anableddau o ran datblygu.

Defnyddir ein hystafell Radiotherapi mewn Amgylchedd Rhithwir (VERT) i wella eich dysgu am anatomeg mewn modd 3-dimensiwn, yn ogystal â dysgu sgiliau i chi sy'n ymwneud â radiotherapi yn benodol. Mae ein hystafell mowld a luniwyd yn bwrpasol hefyd yn eich galluogi chi i ymarfer creu mowldiau neu fasgiau er mwyn sicrhau bod cleifion yn aros yn yr un man wrth gael eu triniaeth radiotherapi.

Edrychwch y tu mewn i'n hystafell pelydr-x arbenigol sydd ag uned radiograffeg gyfrifiadurol a delweddu digidol, uned pelydr-x symudol a sganiwr uwchsain. Mae hefyd

gennym ystafell edrych ar ddelweddau sydd â monitorau a phrosesyddion pwrpasol i edrych ar ddelweddau yn ogystal â meddalwedd efelychu pelydr-x.

Yn ogystal â'n technolegau cyffrous i chi ymarfer eich sgiliau, mae hefyd gennym ddarlithfa newydd ei hadnewyddu, ystafelloedd dosbarth sy'n berffaith ar gyfer gwaith grŵp fel ystafell glos a mannau penodol i fyfyrwyr sydd ar gael i chi eu defnyddio pryd bynnag y bydd eu hangen arnoch.

Lleolir y Llyfrgell Iechyd yn Adeilad Cochrane, ac mae'n cynnwys casgliadau am nyrsio, bydwreigiaeth, iechyd perthynol, meddyginiaeth, a'r gwyddorau meddygol a biolegol. Mae'r llyfrgell iechyd pwrpasol ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Dewch o hyd i'n hadeilad Tŷ Eastgate, lle byddwch yn gweld dwy theatr ffug sy'n efelychu'r theatrau a geir mewn ysbytai, yn ogystal â phedair ystafell ymarfer ar gyfer datblygu sgiliau craidd ym meysydd cynnal bywyd, codi a chario, adfer a gofal cymhleth.

Canolfannau a Sefydliadau Ymchwil

www.caerdydd.ac.uk/healthcare-sciences/research/institutes-centres

- Ymchwil Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd
- Datblygiad Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Bydwreigiaeth
- Canolfan Biofecaneg a Biobeirianneg Ymchwil Arthritis y DU
- Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth – Canolfan Rhagoriaeth Joanna Briggs.

Rydym yn sicrhau eich bod yn
cael profiad bywyd go iawn





Fel rhan o'ch taith chi gyda ni, rydym yn sicrhau eich bod yn derbyn dull cyfunol o ddysgu. Dyma pam mae pob un o'n cyrsiau wedi'u rhannu rhwng theori a dysgu ar leoliad.

Mae cael elfen ymarferol ar eich cwrs yn golygu eich bod yn cael profiad yn y byd go iawn. Mae ymwneud â gofal cleifion/cleientiaid yn eich helpu i ddatblygu eich hyder a'ch galluoedd fel gweithiwr proffesiynol gofal iechyd. Mae hefyd yn gyfle i chi roi'r sgiliau newydd a ddysgwyd ar waith.

Byddwch yn cael y cyfle i roi cynnig ar feysydd gwahanol ar leoliad a fydd yn rhoi'r cychwyn gorau posibl i chi pan ddaw i'r adeg o edrych ar eich cyfleoedd cyflogaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod o ddarparwyr gofal iechyd i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd addysg ar leoliad i chi ar draws Cymru gyfan. Er bod rhai lleoliadau ar gael yng Nghaerdydd ac yn fwy lleol ar gyfer rhai rhaglenni, cewch gyfle i fynd ymhellach gyda rhai lleoliadau.

Mae faint o amser y byddwch yn ei dreulio ar leoliad a'r ardal ddaearyddol yn amrywio o raglen i raglen, ond bydd disgwyl i chi drin eich amser ar leoliad yn broffesiynol oherwydd y byddwch yn gweithio gyda chleifion go iawn. Darperir gofal iechyd yn y DU bob awr o'r dydd, felly bydd lleoliadau yn adlewyrchu patrymau gwaith go iawn a allai gynnwys gweithio sifftiau a gweithio dros nos. Bydd hyn yn rhoi profiad go iawn i chi o'r diwrnod cyntaf.

Ein nod yw sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi ar leoliad a dyma pam y caiff addysgwyr/mentor lleoliadau pwrpasol ei ddyrannu i chi. Mae treulio amser ar leoliad yn rhoi profiad amrywiol i chi; gan ymdrin ag ystod o amgylcheddau arbenigol sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal.

Fodd bynnag, cewch ystod eang o brofiadau os ydych yn cwblhau un o'ch lleoliadau dramor!

Rydym yn cynnig cyfleoedd i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor

Gall astudio dramor eich datblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. Gall hefyd eich helpu i ddysgu o ddiwyllianau eraill a defnyddio'r arfer gorau. Mae gennym gysylltiadau â thros 300 o sefydliadau a gallwn gynnig y cyfle i chi dreulio cyfnod ar leoliad yn Ewrop a ledled y byd.

Os ydych yn awyddus i deithio yn rhan o'ch rhaglen israddedig, gallwn eich helpu i wneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n tim symudedd myfyrwyr:

HCAREInternationalMobility@caerdydd.ac.uk



Dysgu unigryw



Byddwch yn ymuno â Phrifysgol Grŵp Russell, sy'n golygu ein bod wedi ymrwmo i gynnal yr ymchwil orau, rhoi profiad dysgu ac addysgu rhagorol, yn ogystal â meithrin cysylltiadau cryf gyda busnesau eraill a'r sector cyhoeddus.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr i greu amgylchedd ysgogol a chefnogol lle gall ein holl fyfyrwyr ffynnu.

Addysgu

Mae ein holl raglenni wedi cael eu hachredu gan y cyrff proffesiynol perthnasol, ac yn arwain at gymhwysedd i gofrestru gyda'r gofrestr broffesiynol briodol ar ôl graddio.

Cewch eich addysgu gan ddarlithwyr sydd â phrofiad bywyd go iawn yn eu proffesiwn. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gwybod eich bod yn dysgu sgiliau hanfodol a fydd o fudd penodol i chi wrth weithio'n ymarferol.

Rydym yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu ac addysgu arloesol a ddewiswyd i roi'r hyfforddiant angenrheidiol yn y ffordd orau posibl. Mae darlithoedd o'r fath yn dysgu'r wybodaeth sylfaenol i chi, yn ennyn trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth i holi cwestiynau ac astudio pynciau'n fwy manwl, ac yn cynnig sesiynau ymarferol i roi'r theori ar waith.

Mae eich tiwtor personol yno i gynnig cymorth drwy gydol eich astudiaethau, a dyrennir

addysgwr/mentor lleoliadau pwrpasol i chi pan fyddwch ar leoliadau ymarferol.

Mae pwyslais ar rannu dysgu ac addysg ryngbroffesiynol, gan adlewyrchu'r ffaith y byddwch yn gweithio mewn timau ambroffesiynol yn yr amgylchedd clinigol.

Asesiadau

Mae gennym nifer o ddulliau o asesu eich gwaith ac mae'r rhain yn amrywio yn dibynnu ar eich rhaglen astudio. Mae enghreifftiau o waith ysgrifenedig yn cynnwys poster, cyflwyniadau, aseiniadau ysgrifenedig, arholiadau, asesiadau clinigol a thraethodau hir.

Mae hyn oll yn eich paratoi chi at ddyfodol disglair a llwyddiannus. Dyna pam mae 99% o'n graddedigion mewn gwaith cyflogedig a/neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl



Ariannu cwrs gofal iechyd

Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu cyllid ar gyfer cyrsiau gofal iechyd sy'n dechrau o fis Medi 2020, ac nid yw canlyniad yr adolygiad hwn yn hysbys ar yr adeg argraffu. Felly, mae'r canllawiau canlynol ar sail trefniadau ariannu presennol.

Mae dwy ffordd wahanol o ariannu myfyrwyr gofal iechyd israddedig ar y cyrsiau canlynol ym Mhrifysgol Caerdydd:

- Nyrsio Oedolion
- Nyrsio Iechyd Meddwl
- Nyrsio Plant
- Bydwreigiaeth
- Ffisiotherapi
- Therapi Galwedigaethol
- Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu
- Radiotherapi ac Oncoleg
- Ymarfer Gofal Llawdriniaethol

Y ddau brif lwybr o ariannu cwrs gofal iechyd yw arian gan y GIG neu Gyllid Myfyrwyr 'llawn':

Mae arian y GIG ar gael i'r rhai hynny sydd wedi ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso (2 flynedd am radd neu 18 mis am Ddiploma).

Mae Cwestiynau Cyffredin yn ogystal â thelerau ac amodau ynghylch dewis arian y GIG a'r ymrwymiad i weithio yng Nghymru ar gael ar wefan 'Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru' (NHS SAS).

Ffioedd Dysgu

Os ydych yn cymhwyso ar gyfer arian y GIG, bydd y GIG yn talu'r ffioedd dysgu llawn. Nid yw'r cymorth hwn yn cael ei asesu ar sail incwm.

Os nad ydych yn dewis arian y GIG, ceir dewis i wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu drwy Gyllid Myfyrwyr i dalu am y ffioedd dysgu.

Astudiaeth flaenorol

Ar hyn o bryd, nid yw astudiaethau addysg uwch blaenorol yn effeithio ar gymhwysedd ar gyfer cael rhagor o arian gan y GIG gan gynnwys cyfradd ostyngedig y Benthyciad Cynhaliaeth (Sylwer: NID yw myfyrwr Diplomâu Ôl-raddedig yn gymwys ar gyfer cyfradd ostyngedig y Benthyciad Cynhaliaeth). Os ydych chi wedi astudio'n flaenorol mewn addysg uwch, bydd hyn yn effeithio ar eich

cymhwysedd a'ch hawl i gael rhagor o arian gan Gyllid Myfyrwyr. Os oes eisoes gennych radd, nid ydych yn gymwys am Gyllid Myfyrwyr ar gyfer cwrs gofal iechyd yng Nghymru.

Arian ar gyfer costau byw

Mae arian y GIG yn cynnwys 3 elfen sylfaenol:

- Grant o £1,000 y flwyddyn gan y GIG, heb ei asesu ar sail incwm.
- Bwsariaeth gan y GIG, a asesir ar sail incwm, sy'n gallu amrywio yn ôl y cwrs y byddwch yn ei astudio a blwyddyn y cwrs.
- Cyfradd ostyngedig o'r Benthyciad Cynhaliaeth, heb ei asesu ar sail incwm, sy'n gallu amrywio yn ôl ble rydych yn hanu ohono yn y DU.

Dim ond os ydych o Loegr y bydd arian Cyllid Myfyrwyr yn cynnwys Benthyciad Cynhaliaeth. Mae'n gyfuniad o Fenthyciad Cynhaliaeth a grant nad ydyw'n ad-daladwy i fyfyrwyr o wledydd eraill y DU. Mae maint y benthyciad a'r grant rydych yn ei dderbyn yn seiliedig ar asesiad incwm.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, naill ai incwm y rhieni neu incwm partner neu briod yw'r incwm a asesir. Fel arfer, diystyrir eich incwm cyn y cwrs a'ch enillion yn ystod eich astudiaethau.

Mae cymorth ychwanegol a asesir ar sail incwm ar gael drwy'r GIG yn ogystal â Chyllid Myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd â phlant i'w helpu gyda chostau byw a chostau gofal plant cofrestredig. Cysylltwch â'r Tîm Cyngor ac Arian i gael ein canllawiau am arian ar gyfer myfyrwyr sydd â phlant.

Ac eithrio Therapi Galwedigaethol, mae wythnosau ychwanegol o astudio yn rhan o'n holl gyrsiau gradd gofal iechyd sy'n ymestyn pob blwyddyn academiaidd y tu hwnt i 9 mis. Yn amodol ar asesiad incwm, caiff Bwsariaeth y GIG neu Gyllid Myfyrwyr ei gynyddu er mwyn adlewyrchu'r wythnosau astudio ychwanegol.

Help gyda chostau lleoliad

Gall myfyrwyr o'r DU a ariennir gan y GIG neu Gyllid Myfyrwyr gyflwyno cais am gymorth gyda chostau lleoliadau gwaith drwy'r GIG. NID yw myfyrwyr o'r UE sy'n derbyn arian ar gyfer ffioedd dysgu'n gymwys i gael cymorth â chostau lleoliadau gwaith.

Mae'r help yn seiliedig ar gost y daith o'ch cartref (cyfeiriad yn ystod y tymor) i'r lleoliad ac yn ôl HEB GYNNWYS cost y daith o'ch cartref (cyfeiriad yn ystod y tymor) i Brifysgol Caerdydd ac yn ôl, e.e. eich taith arferol i'r Brifysgol.

Os bydd rhaid ichi dalu am lety yn eich lleoliad, cewch chi ofyn am gymorth gyda'r gost ar yr amod eich bod yn talu am lety lle rydych chi'n byw fel arfer yn ystod y tymor, hefyd. Gallwch wneud cais am help ar gyfer costau lleoliad drwy'r Brifysgol.

Myfyrwyr yr UE

Gall myfyrwyr yr UE sy'n dechrau cwrs gofal iechyd yn 2019/20 ac sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso, wneud cais am help gyda ffioedd dysgu drwy gyfrwng Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru (NHS SAS). Gan ddibynnu ar amodau cymhwysedd, gall myfyrwyr yr UE nad ydynt yn gwneud yr ymrwymiad hwn wneud cais i gael help gyda ffioedd dysgu drwy gyfrwng Cyllid Myfyrwyr. Ar yr adeg argraffu, nid oes canllawiau ar gymhwysedd ariannu myfyrwyr o'r UE ar gyfer cyrsiau gofal iechyd sy'n dechrau o fis Medi 2020.

Cyngor pellach

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ariannu cwrs gofal iechyd, cysylltwch â:

Tîm Cyngor ac Arian, Prifysgol Caerdydd

Ffôn: **029 2087 4844**

neu Ebst:

Adviceandmoney@caerdydd.ac.uk

Os oes gennych ymholiadau ynghylch bod yn gymwys ar gyfer arian y GIG ac ymrwymo i weithio yng Nghymru, cysylltwch â:

Gwasanaethau Grantiau Myfyrwyr y GIG Cymru

Ffôn: **029 2090 5380**

neu Ebstiwlch: **abm.sas@wales.nhs.uk**

Radiograffeg a Delweddu Diagnostig **BSc (Anrh.)**

Cod UCAS: **B823**



Mae ein rhaglen Radiograffeg a Delweddu Diagnostig yn 1af yng Nghymru ac yn 4ydd yn y DU gan The Times a Sunday Times *Good University Guide 2020*.

Mae ein rhaglen amser llawn yn cael ei hachredu gan Gymdeithas a Choleg y Radiograffwyr, ac mae'r sgiliau y byddwch yn eu hennill yn drosglwyddadwy i holl Ymddiriedolaethau'r GIG, ac yn cael eu cydnabod dramor.

Mae radiograffyddion diagnostig yn aelodau allweddol o'r tîm gofal iechyd. Maent yn gweithredu amrywiaeth eang o offer delweddu sydd ar gael mewn ymarfer meddygol modern gan gynnwys tomograffeg cyfrifiadurol, delweddu atseinol magnetig, delweddu uwchsain ac offer pelydr-X. Fel radiograffydd diagnostig, byddwch yn gyfrifol am ddarparu gofal cynhwysfawr i gleifion sy'n amrywio o blant newydd-anedig i'r henoed. Byddwch yn cynhyrchu ac yn dehongli delweddau i'w defnyddio wrth roi diagnosis o anaf ac afiechyd. Erbyn diwedd y cwrs bydd gennych wybodaeth drylwyr o agweddau proffesiynol a chlinigol radiograffeg ddiagnostig, gan gynnwys yr ystod eang o dechnolegau delweddu a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Nod ein cwrs yw eich trochi ym mhob agwedd ar ymarfer Radiograffeg; yn ymarferol

ac yn ddamcaniaethol. Cynhelir yr addysgu ymarferol yn ein cyfleusterau diagnostig pwrpasol sy'n cynnwys ystafell pelydr-x diagnostig swyddogaethol ac ystafell edrych ar ddelweddau. Caiff pob un o'r rhain eu cefnogi gan feddalwedd efelychu y bydd pob un ohonoch yn gallu ei defnyddio. Byddwch yn derbyn cefnogaeth academiaidd agos gan diwtoriaid personol profiadol ac yn cael eich addysgu a'ch cefnogi gan staff profiadol.

Mae gennym bartneriaethau gwaith agos gydag ymddiriedolaethau'r GIG ar draws Cymru ac oherwydd hyn, byddwch yn elwa ar leoliadau ar draws Cymru a gefnogir gan addysgwyr profiadol am leoliadau ym maes Radiograffeg. Bydd prosiect ymchwil gwreiddiol yn ffrwyth llafur eich tair blynedd o astudio. Mae cydran dulliau ymchwil y maes llafur yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i chi allu datblygu'n broffesiynol yn barhaus ac ymarferol ar sail tystiolaeth.

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd modd i chi gymhwyso'n Radiograffydd Diagnostig gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).



Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig ...

Mae mynd ar leoliad yn gyfle gwyh i roi'r hyn rwyf wedi'i ddysgu ar waith a magu fy hyder.

Lleucu Walters, Myfyriwr Radiograffeg

Bydwreigiaeth BMid (Anrh.)

Cod UCAS: **B720**



Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Mae'r cyfle i weithio o fewn dau Fwrdd Iechyd Prifysgol yn cyfoethogi eich addysg ac mae'r mentoriaid pwrpasol yn eich helpu i ddatblygu'n ymarferydd hyderus a medrus.

Lily Geraghty, Myfyriwr Bydwreigiaeth

Mae 100% o'n myfyrwyr yn fodlon ar ein cwrs (Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019) felly byddwch yn ymuno â rhaglen bydwreigiaeth boblogaidd a chefnogol sydd ag ymdeimlad teuluol.

Mae bydwreigiaeth yn broffesiwn unigryw, gyda'i safonau hyfedredd ei hun ac yn rhan o gofrestr yr NMC. Mae bydwragedd yn atebol fel y gweithiwr proffesiynol arweiniol ac mae ganddyn nhw berthynas unigryw gyda'r menywod, babanod newydd-anedig, partneriaid a'r teuluoedd maen nhw'n gofalu amdanynt nhw.

Maent yn gweithio mewn partneriaeth â menywod, gan barchu eu hawliau dynol, gan eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Maent yn gwneud y gorau o brosesau ffisiolegol, ac yn cefnogi sefyllfaoedd seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol diogel, gan weithio i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ac i ragweld ac atal cymhlethdodau.

Byddwch yn ymuno â'r unig Brifysgol sydd wedi cael ei dynodi'n Ganolfan Gydweithiol ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth gan Sefydliad Iechyd y Byd. Fel y ganolfan ar gyfer y rhanbarth Ewropeaidd, bydd darlithwyr cymwynasgar a gwybodus yn eich addysgu. Mae'r darlithwyr hyn yn dylanwadu ar ofal iechyd ac addysg ar draws Cymru a thu hwnt drwy eu gwaith ymgysylltu a'u hymchwil.

Gallwch wella eich dysgu academiaidd yn ein hystafelloedd efelychu. Mae'r ward bydwreigiaeth realistig yn cynnwys efelychwyr realistig o famau a babanod ynghyd â theatr efelychol. Bydd y rhain yn eich cyflwyno i sefyllfaoedd realistig lle gallwch ymarfer sgiliau hanfodol a'u datblygu. Drwy hyn, byddwch yn datblygu eich hyder a'ch arbenigedd cyn mynd ar leoliad.

Er bod dysgu yn y Brifysgol yn hanfodol, rydym yn cydnabod gwerth dysgu ar leoliad, sydd yr un mor bwysig. I gydnabod hyn a'r Safonau Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth, byddwch yn treulio tua 50% o'ch amser ar leoliad. Er mwyn hwyluso hyn rydym wedi sefydlu perthnasoedd gwaith agos gyda dau ddarparwr gwasanaeth mawr yn Ne Cymru. Wrth gael eich goruchwyllo gan fentor byddwch yn gweithio mewn ystod eang o amgylcheddau dysgu, yn yr ystyby ac yn y gymuned, gan wella eich profiad o ofalu am fenywod, eu babanod a'u teulu.

Mae bydwreigiaeth yn broffesiwn unigryw gyda'i safonau hyfedredd ei hun ac yn rhan o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae bydwragedd yn atebol fel y

gweithiwr proffesiynol arweiniol ac mae ganddynyt gydberthynas unigryw â'r menywod, y babanod newydd-anedig, y partneriaid a'r teuluoedd y maent yn gofalu amdanynt. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein graddedigion yn barod ar gyfer y cam nesaf, a dyma pam bod 100% o'n myfyrwyr bydwreigiaeth mewn gwaith cyflogedig neu'n astudio ymhellach chwe mis ar ôl graddio (Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019).

Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Nyrsio Oedolion **BN (Anrh.)**

Cod UCAS: **B740** (Derbyniad Hydref), **B741** (Derbyniad Gwanwyn)



Ymunwch ag un o'n rhaglenni nyrsio sydd yn 1af yng Nghymru a'r 10 uchaf yn y DU gan The Times *Good University Guide* 2020 ac sy'n cael eu dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

Gradd broffesiynol yw nyrsio oedolion sy'n arwain at yrfa gyffrous, heriol a gwerth chweil. Mae ein rhaglen yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi ddod yn nyrs oedolion cofrestredig ar ôl 3 blynedd.

Mae bod yn nyrs oedolion yn golygu y byddwch yn gweithio gydag oedolion o bob oed (sy'n 16 oed neu'n hŷn). Gallant fod yn dioddef o un neu ragor o gyflyrau iechyd tymor byr neu fwy hirdymor, gan gynnwys anafiadau o ddamwain, cancer neu ddiabetes. Byddwch yn meithrin perthnasau llawn ffydd ag unigolion yn eich gofal a'u teuluoedd, gan ystyried llawer o ffactorau a rheoli nifer o flaenoriaethau i sicrhau'r canlyniad gorau posibl iddynt.

Bydd darlithwyr cefnogol yn cynnig dysgu arloesol a diddorol, y gellir ei ymarfer yn ein hamgylcheddau dysgu sy'n llawn cyfarpar sy'n eich galluogi chi i ddysgu mewn ward realistig, yn y gymuned, mewn cartrefi ac efelychiadau o argyfwng. Mae'r efelychiadau hynod realistig yn golygu y gallwch ymarfer a datblygu sgiliau hanfodol yn ddiogel, yn ogystal â magu eich hyder a'ch arbenigedd cyn mynd ar leoliad.

Byddwch yn treulio oddeutu hanner eich amser ar leoliad, mewn lleoliadau yn yr ysbty a'r gymuned. Yn ystod yr ail flwyddyn, cewch fanteisio ar gyfle i ddysgu ymarfer ar leoliad mewn amgylchedd gwahanol, naill ai yn y DU neu dramor.

Drwy gwblhau'r radd hon, byddwch yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel Nyrs Oedolion. Ar ôl ennill y cymhwyster hwn, cewch weithio mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig a thramor. Rydym yn ymdrechu i sicrhau eich bod y nyrs oedolion gorau y gallwch fod. Dyma pam mae 100% o'n graddedigion nyrsio mewn gwaith cyflogedig neu'n gwneud astudiaethau pellach chwe mis ar ôl graddio (UNISTATS 2019).



Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Pediwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig lleoliadau clinigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru – ysbty sefydledig a fydd yn rhoi profiad gwerthfawr i mi ac yn agor y drysau i mi yn y dyfodol.

Kayleigh Griffiths, Myfyriwr Nyrsio Oedolion

Nyrsio Plant **BN (Anrh.)**

Cod UCAS: **B730**



Ymunwch ag un o'n rhaglenni nyrsio sydd yn 1af yng Nghymru a'r 10 uchaf yn y DU gan The Times *Good University Guide 2020* ac sy'n cael eu dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

Mae ein rhaglen yn rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i chi ddod yn nyrs plant cofrestredig ar ôl tair blynedd. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i chi wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant; gwerth nad oes llawer o weithwyr proffesiynol eraill yn gallu ei gynnig.

Mae nyrsys plant yn rhoi cymorth a gofal i blant, i bobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y rôl gynnwys popeth o nyrsio babi sâl newydd-anedig i ofalu am berson ifanc sy'n dioddef ar ôl bod mewn damwain ffordd. Mae angen bod nyrs plant yn dehongli ymddygiad ac ymatebion plant, a bod yn gallu sylwi pan fo iechyd plentyn yn gwaethygu – sydd yn aml yn gallu digwydd yn gyflym iawn. Mae gan blant anghenion iechyd penodol iawn, ac mae nyrsys plant yn defnyddio dull o roi gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu ac sy'n annog ac yn helpu plant, pobl ifanc a'u gofaluwr i fod â rhan mewn penderfyniadau gofal.

Mae pob un o'n darlithwyr yn nyrsys plant cofrestredig sy'n addysgu mewn ffordd gefnogol a diddorol drwy gynnwys eu profiadau eu hunain o ymarfer.

Mae gennym labordai sgiliau â chyfarpar llawn yn ein Hystafell Efelychu Clinigol, sy'n eich

galluogi i ddysgu mewn efelychiadau realistig o achosion brys, ward plant, cymuned, a chartref. Mae'r efelychiadau hynod realistig yn golygu y gallwch ymarfer a datblygu sgiliau hanfodol yn ddiogel, yn ogystal â magu eich hyder a'ch arbenigedd cyn mynd ar leoliad clinigol.


Byddwch yn treulio oddeutu hanner eich amser ar leoliad. Rydym yn cynnig profiad amrywiol a fydd yn eich galluogi i integreiddio damcaniaeth academiaidd ag ymarfer, a chael cipolwg ar y cyfleoedd gwaith eang fydd ar gael i chi ar ôl cymhwyso. Yn ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen, byddwch hefyd yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd arbenigol megis; Unedau Newyddenedigol; Uned Gofal Dwys Pediatrig, Uned Damweiniau ac Achosion Brys Plant; Unedau Oncoleg Plant a Phobl Ifanc a Hosbis Plant.

Yn rhan o'ch lleoliadau, cewch eich lleoli yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa sydd wedi'i leoli yn ein safle ym Mharc y Mynydd Bychan. Drwy gwblhau'r radd hon, byddwch yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel nyrs plant.

Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Pwerau chymryd ein gair ni'n unig...

Rwyf wedi dwlu ar yr amrywiaeth o gyfleoedd o ran lleoliadau, yn arbennig gyda POLO. Mae fy nghyfleoedd am swyddi'n edrych mor eang nawr!

Billie Powell, Myfyriwr Nyrsio Plant

Nyrsio Iechyd Meddwl BN (Anrh.)

Cod UCAS: **B760** (Derbyniad Hydref), **B761** (Derbyniad Gwanwyn)



Ymunwch ag un o'n rhaglenni nyrsio sydd yn 1af yng Nghymru a'r 10 uchaf yn y DU gan The Times *Good University Guide 2020* ac sy'n cael eu dilysu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

Bydd ein rhaglen nyrsio iechyd meddwl yn eich herio ac yn eich ysbrydoli i baratoi ar gyfer gyrfa werth chweil ac ysgogol.

Mae nyrsys iechyd meddwl yn cynnig help a chefnogaeth i bobl o bob oed, eu teuluoedd a'u gofawyr, i gefnogi adferiad o amrywiaeth o feddyliol cyflyrau iechyd. Mae'r rôl yn amrywiol; efallai y byddwch chi'n helpu un person i ddechrau deall ei brofiad o anhwylder cyn ymgysylltu ag un arall â therapïau perthnasol a all helpu gyda'u hadferiad.

Gall nyrsys ddarparu gofal iechyd meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau megis ysbytai arbenigol, lleoliadau cymunedol a chartrefi pobl eu hunain. Er mai rôl allweddol y nyrs iechyd meddwl yw ffurfio perthnasoedd therapiwtig ystyrlon, mae'n hanfodol eu bod yn gallu darparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar adferiad, ac mae'r rhain yn egwyddorion a sgiliau y byddwch chi'n datblygu drwyddynt ein rhaglen.

Ein nyrsio iechyd meddwl cefnogol mae darlithwyr yn cyflwyno cyfleoedd dysgu amrywiol a diddorol gan gynnwys ymarfer efelychiedig yn ein bythau cyfathrebu a

ddyluniwyd yn arbennig, gan ganiatáu lle i chi i archwilio meysydd emosiynol sy'n adlewyrchu byd go iawn iechyd meddwl ymarfer nyrsio mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Byddwch yn treulio tua 50% o'ch amser ar leoliad clinigol. Mae ein hardaloedd lleoliad yn cynnwys timau sy'n gweithio gyda phlant ac ifanc pobl, oedran gweithio ac oedolion hŷn mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai. Byddwch yn profi ystod eang o gyd-destunau clinigol a allai gynnwys meysydd fel ymyrraeth argyfwng, unedau gofal dwys seiciatryddol, gwasanaethau dibyniaeth ac iechyd meddwl fforensig.

Bydd cwblhau'r radd hon yn caniatáu cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fel Nyrs Iechyd Meddwl. Bydd yn sicrhau eich bod chi yn addas ar gyfer ymarfer ar y pwynt cofrestru ac wedi'i gyfarparu i ddatblygu eich gyrfa ar draws amrywiaeth o gyfleoedd datblygu.

Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Peddiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Byddwn i'n argymhell astudio Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwy'n gobeithio gweithio mewn meysydd fel cyfleusterau iechyd meddwl aciwt i gleifion mewnol, adsefydlu a'r gymuned.

Rebecca Farman,
Myfyrwr Nyrsio Iechyd Meddwl

Therapi Galwedigaethol BSc (Anrh.)

Cod UCAS: **B921**



Yn safle 1af yng Nghymru gan y Times Good University Guide 2020 a'r 2 Uchaf yn y DU gan *The Complete University Guide 2020*, nod ein rhaglen Therapi Galwedigaethol yw eich cymhwyso fel Therapydd Galwedigaethol.

Fel therapydd galwedigaethol cymwys, byddwch yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl sy'n wynebu heriau a rhywstrau sy'n eu hatal nhw rhag ymgyrryd â'r gweithgareddau (neu'r swyddi) sydd o bwys iddynt. Gall hyn fod oherwydd bod ganddynt salwch, anabledd neu oherwydd eu bod wedi wynebu trawma neu amgylchiadau cymdeithasol gwael. Gallwch fod yn helpu rhywun i addasu i fywyd ar ôl llawdriniaeth fawr un diwrnod, i helpu rhywun sy'n dioddef o salwch meddwl i ymgyswddo â gweithgareddau beunyddiol megis gweithio unwaith eto y diwrnod nesaf.

Mae Ffederasiwn Therapyddion Galwedigaethol y Byd (WFOT) wedi cymeradwyo ein rhaglen, ac mae hyn yn golygu y bydd eich cymhwyster yn cael ei gydnabod mewn oddeutu 60 o wledydd ledled y byd, a fydd yn gwella eich cyfleoedd ar gyfer gweithio'n rhyngwladol. Fe'ch addysgir gan addysgwyr therapi galwedigaethol profiadol a byddwch trwy gydol eich taith yn y Brifysgol yn cael eich cefnogi gan diwtor personol.

Cewch gefnogaeth academiaidd gynhwysfawr gan diwtor personol profiadol a chewch eich addysgu a'ch cefnogi gan staff profiadol wrth rannu syniadau mewn ystafell ddosbarth clos. Cewch ddysgu yn ein hystafell bwrpasol ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd a'n clinig therapi galwedigaethol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi ymarfer damcaniaethau yn ogystal ag arsylwi ar y broses o asesu a thrin cleientiaid go iawn sydd ag anableddau datblygiadol, a chynorthwyo gyda hyn.

Byddwch yn treulio cyfnod pwysig o'ch amser dysgu ar leoliad yng Nghymru. Cefnogir y lleoliadau hyn gydag addysgwyr therapi galwedigaethol profiadol. Bydd profiad amrywiol ar leoliad yn eich galluogi i integreiddio eich damcaniaeth academiaidd ag ymarfer, a chael cipolwg ar ofal yn y byd go iawn a'r cyfleoedd gwaith eang fydd ar gael i chi ar ôl cymhwyso.

Ar ôl i chi gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus byddwch yn gymwys i gofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a dod yn aelod o Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT).

Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Pediwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Dewisais Brifysgol Caerdydd oherwydd bod ganddi gyfleusterau gwych, er enghraifft, yr ystafell bwrpasol ar gyfer gweithgareddau bywyd bob dydd, a'n hystafell efelychu ar gyfer Therapi Galwedigaethol.

Liam Hanson,
Myfyriwr Therapi Galwedigaethol

Ymarfer Gofal Llawdriniaethol **BSc (Anrh.)**

Cod UCAS: **B992**



Ymunwch â ni ac astudio mewn sefydliad sydd wedi'i restru fel y prif ddarparwr Ymarfer Adran Weithredu (BSc) yn ôl Tablau Cynghair y Guardian 2020.

Byddwch yn astudio yn yr unig sefydliad addysg uwch yng Nghymru, ac unig brifysgol Grŵp Russell, sy'n cynnig Ymarfer Adran Weithredu BSc. Mae'n ddewis cyffrous, heriol a gwobrwyol o yrfa sy'n hynod ymarferol ac unigryw. Mae Ymarferwyr Gofal Llawdriniaethol yn aelodau hanfodol mewn timau aml-ddisgyblaethol. Maen nhw'n cefnogi lles emosiynol, seicolegol a chorfforol claf drwy gydol y daith amlawdriniaethol, yn ogystal ag yn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i fodloni'r lefel uchel o ofal cleifion sydd ei angen. Gall hyn fod ym maes anestheteg, megis paratoi ystod eang o offer arbenigol a sicrhau bod yr offer yn diwallu anghenion y claf. Yn ystod llawdriniaethau, megis bod yn gyfrifol am baratoi a defnyddio cyfarpar llawfeddygol. Yn olaf, yn ystod y gofal ar ôl anestheteg, megis monitro ac ymyrryd yn addas nes bod y claf wedi dod at ei hun yn briodol o effeithiau'r anestheteg a'r llawdriniaeth.

Byddwch yn dysgu'r sgiliau sy'n cwmpasu pob un o'r tri cham hwn yn ystod eich astudiaethau academaidd a'ch lleoliadau clinigol. Yn ystod astudiaeth academaidd, cewch gymorth gan diwtor personol a thîm arloesol o academyddion mewn carfan glos, yn ogystal â'ch cefnogi yn ein hystafell efelychu a adnewyddwyd yn ddiweddar sy'n

debyg i amgylchedd amlawdriniaethol go iawn. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi rhoi eich theori, eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar waith cyn mynd i ymarfer.

Mae'r lleoliadau clinigol drwy Gymru yn cyfrif am oddeutu hanner o'ch astudiaethau; a byddwch yn gweithio ochr yn ochr â mentoriaid lleoliad ymroddedig, gweithwyr proffesiynol amlawdriniaethol deallus a chleifion go iawn. Cewch brofiad o ystod amrywiol o amgylcheddau clinigol a fydd yn sicrhau eich bod yn barod ar gyfer y farchnad gyflogaeth. Dyma pam mae 100% o'n graddedigion mewn gwaith cyflogedig neu'n gwneud astudiaethau pellach chwe mis ar ôl graddio (UNISTATS 2018).

Ar ôl cymhwyso, bydd y mwyafrif o ymarferwyr gofal llawdriniaethol (ODPs) yn gweithio'n bennaf mewn adrannau llawfeddygaeth, ond gallant hefyd weithio mewn meysydd amrywiol megis adrannau damweiniau ac achosion brys, unedau gofal dwys, adrannau obstetrig, endosgopi, ac fel aelodau o'r tîm trawiadau ar y galon, i enwi ond ychydig.

Ar ôl cwblhau'r radd, byddwch yn gymwys i wneud cais i Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i gofrestru fel Ymarferydd Gofal Llawdriniaethol cofrestredig.

Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Gyda'u henw da rhagorol am feithrin a chefnogi eu myfyrwyr, cyfleusterau o'r radd flaenaf a darlithwyr gwybodus. Roeddwn i'n gwybod mai dyma'r lle y gallwn dyfu.

Tiffanie Shawcroft,
Myfyriwr yn Ymarfer Gofal Llawdriniaethol

Ffisiotherapi BSc (Anrh.)

Cod UCAS: **B162**



Mae Dewis Ffisiotherapi (BSc) ym Mhrifysgol Caerdydd, yn golygu y byddwch chi'n astudio yn un o'r tri chwr ffisiotherapi gorau yn y DU fel y'u rhestrir gan The Times a Sunday Times Good University Guide 2020.

Mae ffisiotherapi yn helpu i adfer symudiadau neu swyddogaeth pan mae anaf, salwch neu anabledd wedi effeithio ar rywun. Gwneir hyn drwy wneud symudiadau ac ymarfer corff, rhoi therapi â llaw, addysg a chyngor. Gellir hefyd ei ddefnyddio i leihau'r risg o gael anaf neu salwch yn y dyfodol. Nod y radd hon yw eich cymhwyso'n ffisiotherapydd wedi'ch cofrestru'n ffurfiol, a fydd yn gallu gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol mewn amryw o leoliadau.

Mae ein cwrs ymarferol yn cynnig y cyfle i chi astudio drwy ddysgu academaidd yn ogystal â dysgu ymarferol. Cefnogir eich dysgu academaidd gan ymchwilyr ac academyddion

a gydnabyddir yn rhyngwladol. Cynhelir yr addysgu ymarferol mewn labordai ac ystafelloedd efelychu a ddyluniwyd yn bwrpasol sydd ag offer o'r radd flaenaf megis peiriant rhedeg gwrth-ddisgyrchiant a chanolfan recordio symudiadau sy'n defnyddio technegau i ddadansoddi symudiadau pobl.

Mae dysgu ar leoliadau ar draws Cymru hefyd yn rhan hanfodol o'r cwrs, a bydd yn rhoi'r hyder a'r sgiliau i chi ymarfer ffisiotherapi'n broffesiynol mewn sefyllfaoedd yn y byd go iawn gyda gweithwyr proffesiynol cymwys. Rydym bob amser yn ymdrechu i sicrhau eich bod yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Enghraifft o hyn yw rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â ffisiotherapi yn Hanner Marathon Caerdydd a gynhelir bob blwyddyn.

Ar ben hynny, mae ein cwrs wedi'i ddilysu gan Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig (CSP), sy'n golygu eich bod yn gallu cofrestru'n ffisiotherapydd cymwys ar ôl cwblhau ein gradd yn llwyddiannus.



Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau


Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses


Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Gan fod y cynnwys ymarferol a chynnwys y darlithiau mor amrywiol, mae pob dydd yn wahanol! Gall amrywio o dylino, dyrannu, electrotherapi, hydrotherapi, peintio'r corff... a chymaint mwy!

Lizzie Russell, Myfyrwr Ffisiotherapi

Radiotherapi ac Oncoleg BSc (Anrh.)

Cod UCAS: **B824**



Mae ein rhaglen Radiotherapi ac Oncoleg (BSc) yn safle 1af yn y DU (fel sefydliad sy'n cynnig radiotherapi ac oncoleg o dan y categori radiograffeg) yn The Times Good University Guide 2020. Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Gymdeithas a'r Coleg o Radiographers yn ein hachredu.

Mae gan radiograffyddion therapiwtig rôl allweddol wrth drin a gofalu am bobl â chanser. Mae'r proffesiwn heriol ond gwerth chweil hwn yn defnyddio pelydiadau ïoneiddio ynni uchel wrth drin afiechyd malaen a diniwed.

Byddwch yn cael eich cyflwyno i wyddorau ymddygiadol, delweddu ac ymbelydredd a chewch eich cefnogi i feithrin dealltwriaeth gadarn o anatomeg ddynol, ffisioleg a chanser fel proses afiechyd a sefyllfa ddynol.

Fel radiograffydd therapiwtig, byddwch yn gweithio'n agos gyda meddygon, ffisegwyr meddygol ac aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd, i ddarparu gofal personol a chefnogol i bob oedran. Yn aml mae gan y bobl hyn glefyd sy'n bygwth eu bywyd. Byddwch yn cydweithio'n agos ym mhob cam o driniaeth unigolyn gan gynnwys cefnogaeth cyn y driniaeth, cynllunio'r radiotherapi, darparu a gwerthuso triniaeth, rheoli sgîl-ffeithiau, a chefnogaeth ar ôl rhoi triniaeth.

Rydym yn cynnig cymysgedd integredig o astudio yn y Brifysgol a lleoliadau ymarfer mewn sefyllfa glinigol. Byddwch yn dysgu

ochr yn ochr â darlithwyr cefnogol mewn cyfleusterau efelychu pwrpasol. Defnyddir ein hystafell Radiotherapi mewn Amgylchedd Rhithwir (VERT) i wella eich dysgu am anatomeg mewn modd 3-dimensiwn, yn ogystal ag yn dysgu sgiliau i chi sy'n ymwneud â radiotherapi yn benodol. Yn ogystal, mae ein hystafell mowld a ddyluniwyd yn bwrpasol yn eich galluogi i ymarfer a datblygu sgiliau nad ydynt bob amser ar gael i fyfyrwyr yn y lleoliad clinigol.

Rydym yn cydweithio â sefydliadau'r GIG ar draws Cymru i gynnig lleoliadau ymarfer amrywiol i chi fel eich bod yn gystadleuol yn y farchnad gyflogaeth ar ôl cymhwyso.

Byddwch yn cael y cyfle i gynnal prosiect ymchwil gwreiddiol a fydd yn ffrwyth llafur eich tair blynedd o astudio. Nod yr astudiaeth ymchwil hon yw rhoi'r sgiliau angenrheidiol i chi allu datblygu'n broffesiynol yn barhaus ac ymarfer ar sail tystiolaeth.

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn gymwys i wneud cais am gofrestrriad fel Radiograffydd Therapiwtig gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).


Sut byddaf yn treulio fy amser?

- Gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd wedi'u trefnu
- Astudio annibynnol dan gyfarwyddyd
- Lleoliadau

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Blwyddyn 3



Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos sut mae myfyrwyr yn treulio eu hamser ar y rhaglen hon, a gallai gael ei newid.

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Peidiwch â chymryd ein gair ni'n unig...

Rwy'n dwlu ar astudio radiograffeg yn Abertawe oherwydd bod y cwrs yn gyfuniad o ddysgu academiaidd a dysgu clinigol. Gallwch fod yn astudio oncoleg organ un wythnos, a'r wythnos nesaf, byddwch yn rhoi'r ddealltwriaeth sydd gennych ar waith mewn adran.

Sophie Johansson, Myfyriwr Radiotherapi

Sut i ddechrau eich taith gyda ni

Rydym wrth ein bodd eich bod wedi dewis astudio gyda ni. Ein nod yw gwneud y broses o gyflwyno cais mor hawdd ag sy'n bosibl i chi.

Sut i ddechrau eich taith gyda ni:

- Edrychwch ar ddyddiadau cau ar gyfer ceisiadau UCAS a'r meini prawf derbyn ar gyfer y cwrs a ddewiswyd gennych.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer pob cwrs israddedig amser llawn drwy UCAS Apply. Gallwch gyflwyno cais yn gynnar ym mis Medi y flwyddyn cyn yr ydych yn bwriadu dechrau eich cwrs. Gwnewch yn siŵr bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch i lenwi'r ffurflen gais (e.e. hanes addysgol, datganiad personol, manylion canolwyr).
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd am Gyfres o Gyfweiliadau Bychain (MMI).
- Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cyfweiliad, cewch gynnig diamod.
- **Cynigion amodol:** Mae hyn yn golygu y byddwn yn cynnig lle i chi os byddwch yn bodloni amodau penodol. Mae'r rhain fel arfer yn seiliedig ar eich arholiadau. Pan fyddwch wedi bodloni'r amodau a derbyn eich lle drwy UCAS, bydd eich cynnig yn newid i gynnig diamod.

- Rhaid i chi fynd ati nawr i ystyried eich cynigion a rhoi gwybod i UCAS am eich dewis drwy'r system olrhain erbyn y dyddiad cau (wedi'i arddangos ar Track). Mae gennych dri dewis:

Derbyn yn gadarn: Dyma'r dewis cyntaf/sydd orau gennych. Dim ond un cynnig y gallwch ei dderbyn yn gadarn.

Derbyn fel dewis wrth gefn (dewisol): Os cynnig amodol yw'r cynnig yr ydych wedi'i dderbyn yn gadarn, cewch dderbyn cynnig arall (amodol neu ddiamod) fel dewis wrth gefn rhag ofn na fyddwch yn bodloni amodau'r cynnig yr ydych wedi'i dderbyn yn gadarn. Dim ond un cynnig y gallwch ei dderbyn fel dewis wrth gefn.

Gwrthod: Rhaid i chi wrthod pob cynnig arall. Os nad ydych am dderbyn unrhyw gynnig, gallwch wrthod pob un ohonynt. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch wedyn yn gymwys i ddefnyddio gwasanaeth UCAS Extra neu glirio.

Beth yw Cyfres o Gyfweiliadau Bychain (MMI)?

Mae'r Cyfres o Gyfweiliadau Bychain yn gyfle i ni gwrdd â chi wyneb yn wyneb ac ystyried a fydddech yn addas ar gyfer y proffesiwn a ddewiswyd gennych.

Mae'r Cyfres o Gyfweiliadau Bychain yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau bychain a amserir. Bydd y rhain yn dangos eich gallu i feddwl yn y fan a'r lle, dadansoddi gwybodaeth yn feirniadol, cyfathrebu syniadau, a dangos eich bod wedi meddwl am rai o'r materion sy'n bwysig i'r proffesiwn a ddewiswyd gennych. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Cyfres o Gyfweiliadau Bychain yma:

www.caerdydd.ac.uk/study/undergraduate/applying/admissions-criteria/healthcare-sciences

Os oes gennych anabledd neu anhawster dysgu penodol (fel dyslecsia), cofiwch roi gwybod i ni ymlaen llaw fel ein bod yn cael gwybod am eich anghenion cyn i chi gyrraedd.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau eich cais neu os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod y broses, cysylltwch â'n tîm derbyn myfyrwyr gofal iechyd pwrpasol:

Ebost: hcareadmissions@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44(0) 29 2068 7538



Prifddinas



Mae Caerdydd yn ddinas fach sydd â chymeriad enfawr. Mae prifddinas y wlad, sy'n swatio rhwng arfordir garw a golygfeydd mynyddig godidog Cymru, yn llawn diwylliant sy'n cydbblethu trysorau hanesyddol ag amwynderau cosmopolitanaidd.

Mae'n cynnig amrywiaeth ddi-ben-draw o weithgareddau a gallwch ddysgu am hanes cyfoethog Caerdydd yng Nghastell Caerdydd ar ôl cerdded drwy ei strydoedd coblog. Yna, gallwch ymgolli yn yr awyrgylch wrth i'r torfeydd lifo o Stadiwm Principality ar ôl un o blith y digwyddiadau chwaraeon a gynhelir yno drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r sin fwyd gyfoethog ac annibynnol wrth wraidd y ddinas. Gyda rhywbeth at ddant pawb, gallwch fwynhau bwytaï o'r ansawdd

gorau, danteithion sy'n seiliedig ar blanhigion a bwydydd egsotig o bron pob cwr o'r byd, heb anghofio'r pice ar y maen i bwddin!

Gwlad y gân yw Cymru ac yn sicr mae Caerdydd yn cyfrannu'n helaeth at yr etifeddiaeth hon. Mae'r ddinas hon wedi'i hadeiladu gyda cherddoriaeth yn llifo drwy ei gwythiennau, o'r siop recordiau hynaf yn y byd, sef Spillers Records, sydd wedi'i lleoli yn Arcêd Morgan, i leoliadau mwy cyfoes a chartrefol sy'n rhoi llwyfan i rai o dalentau cerddorol newydd mwyaf cyffrous y byd.

Er bod eich rhestr o bethau i'w gwneud yng Nghaerdydd efallai'n enfawr, sicrhewch eich bod yn neilltuo amser i fynd i'r Amgueddfa Genedlaethol, sy'n rhywle rhyfeddol. Peidiwch â cholli'r cyfle hefyd i fynd i adeilad eiconig

Canolfan Mileniwm Cymru, sydd yn lleoliad delfrydol Bae Caerdydd.

Mae Caerdydd, sy'n llawn personoliaeth, yn ddinas a grëwyd ar gyfer myfyrwyr. Mae'n cynnig cyfres ddiddiwedd o gyfleoedd adloniant ac yn parhau'n rhad ac yn hawdd mynd o'i chwmpas.

Mae'r canolfannau siopa modern, yr arcedau esthetig, y parciau gwyrdd godidog a'r bywyd nos llewyrchus yn atyniadau gwych i fyw yng Nghaerdydd, er y byddwch bob amser yn dod o hyd i'ch ffordd yn ôl i Undeb y Myfyrwyr, sef gwir gartref sin y myfyrwyr yn y ddinas.

Cewch ragor o wybodaeth yn:
www.visitcardiff.com

“Gan gynnig trawstoriad bywiog o olygfeydd diwylliannol amlwg, prosiectau adfywio cyffrous – yn enwedig Bae Caerdydd sydd wedi'i adfywio – chwaraeon o'r radd flaenaf, sîn gerddoriaeth gyfoethog a bywyd nos llawn bwrlwm, mae'n hawdd gweld pam mae Caerdydd erbyn hyn yn cael ei hystyried ochr yn ochr â Llundain a Chaeredin fel un o gyrchfannau mwyaf deniadol y DU.” *The Complete University Guide, 2017*

Prifysgol flaenllaw

Rhan o
**RUSSELL
GROUP**

Addysgu wedi'i lwio gan
ymchwil



“Mae Prifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch ar raddfa leol a byd-eang.”

The Telegraph, 2018

Mae ein myfyrwyr yn dysgu gan arbenigwyr blaenllaw mewn dros 300 o gyrsiau ar draws y Brifysgol. Fel unig sefydliad Grŵp Russell yng Nghymru, rydym wedi ennill enw da rhyngwladol am ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, a adeiladwyd o'n hanes o gyflawni er 1883.

Mae oddeutu 5,500 o fyfyrwyr israddedig newydd yn ymgartrefu ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn. Er bod cryn gystadlu am leoedd, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn brifysgol gynhwysol ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb sy'n dymuno astudio gyda ni.

Rydym yn brifysgol fyd-eang sydd â dros 7,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o fwy na 100 o wledydd a chroesawn geisiadau gan bawb, ni waeth beth fo'u cefndir.

Cyfleusterau a datblygu

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein gwasanaethau, ac mae ganddi labordai, darlithfeydd, llyfrgelloedd a chyfleusterau cyfrifiadura newydd sy'n llawn cyfarpar, i enwi rhai yn unig, gyda datblygiadau mwy cyffrous yn mynd rhagddynt yn barhaus.

Mae ein cyfrifoldebau o ran yr amgylchedd a diogelwch yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn hyrwyddo ein polisi ynni, dŵr a gwastraff

cynhwysfawr. Mae'r polisi eisoes yn gwneud arbedion gwyb o ran y defnydd o ynni ac yn ein helpu ni i wneud ein rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

I'r rhai sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd, mae gennym gysylltiadau agos ag ystod o sefydliadau cyffredinol ac arbenigol ledled Cymru. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i chi gael profiad clinigol gwyb mewn amgylcheddau gwahanol, mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Cyfleoedd Byd-eang

Mae gennym bartneriaethau â mwy na 200 o sefydliadau blaenllaw ar draws y byd, a bydd ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu chi i gael profiad rhyngwladol gwerthfawr drwy astudio, gweithio neu wirfoddoli.

Eich cefnogi chi

Mae ein canolfannau cymorth a lles myfyrwyr yn cynnig amrywiaeth sylweddol o wasanaethau sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhad ac am ddim, yn ddiduedd, yn anfeiriadol ac yn gyfrinachol, a'u nod yw eich helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar eich bywyd fel myfyriwr a'ch cefnogi chi wrth i chi astudio.

Rydym hefyd yn cael ein hystyried yn un o'r prifysgolion gorau o ran cefnogi myfyrwyr LHDT+ ac rydym yn falch o fod ymhlith y gorau ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithleoedd Stonewall.

Cewch ragor o wybodaeth yn:

www.cardiff.ac.uk

Taith rithwir o amgylch y campws

Dysgwch fwy am y Brifysgol a dinas Caerdydd drwy fynd ar ein taith ryngweithiol ar-lein yma: virtualtour.cardiff.ac.uk/cy

Byw yng Nghaerdydd



“Mae gan Gaerdydd un o'r undebau myfyrwyr mwyaf, gorau a mwyaf gweithredol yn y DU, gyda chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n cynnwys Y Plas, clwb nos sydd â lle i 2,150 o bobl, a'r Neuadd Fawr, sy'n lleoliad poblogaidd i gyngherddau.”

Complete University Guide, 2019



Caerdydd yw'r lle delfrydol i fod yn fyfyrwr. Mae'n adlewyrchu'r bwrlwm o weithgarwch y mae dinas fawr yn ei gynnig ond mewn lleoliad personol a chlos sydd â chymeriad diddiwedd. Gallwch fwynhau'r awyrgylch, profi'r diwylliant a mynd ati i gymryd rhan yn y lluoedd weithgareddau sydd ar gael yn ein dinas: eich cartref newydd chi.

Gwarant o Lety

Os ydych yn derbyn cynnig lle gan Brifysgol Caerdydd ar sail bendant, cewch warant o ystafell sengl yn un o breswylfeydd y Brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf, a byddwch yn byw gyda myfyrwyr israddedig eraill ar eu blwyddyn gyntaf.

Bydd dyddiadau preswyl eich llety penodol yn cael eu cadarnhau yn eich Cynnig Llety.

Sylwer: efallai y bydd y cyfnodau preswyl hyn yn cynnwys cyfnodau ar leoliad, pan fyddwch yn talu ffioedd llety ond efallai na fyddwch yn byw yn eich ystafell.

Dosberthir y rhaglenni gofal iechyd canlynol fel cyfnod preswyl ansafonol;

- Nyrsio Oedolion, Plant, Iechyd Meddwl
- Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu
- Bydwreigiaeth
- Ymarfer Gofal Llawdriniaethol
- Radiotherapi ac Oncoleg
- Derbyniadau nyrsio mis Mawrth ar gyfer Nyrsio Oedolion ac Iechyd meddwl

Bywyd Preswyl

Byddwch yn gallu defnyddio'r gwasanaeth anhygoel a gynigir gan y Tim Bywyd Preswyl wrth aros yn llety myfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn gweithio'n ddiflino i wella eich profiad fel myfyrwr.

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cefnogi a Lles Myfyrwyr, y Swyddfa Preswylfeydd ac Undeb y Myfyrwyr, bydd Bywyd Preswyl yn eich croesawu chi i Gaerdydd ac yn eich helpu chi i ymgartrefu'n ddiffwdan yn y Brifysgol.

Maent hefyd yn helpu i feithrin ymdeimlad cryf o gymuned drwy ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol, yn ogystal â chefnogaeth ymarferol.

Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhan greiddiol o brofiad myfyrwyr yng Nghaerdydd. Dyma ran annibynnol o'r Brifysgol a arweinir gan y myfyrwyr sy'n benodol ar gyfer sicrhau eich bod yn cael yr amser gorau posibl gyda ni.

Mae Undeb y Myfyrwyr, a adeiladwyd ar sail cynhwysiant, amrywiaeth, datblygiad personol a chyfeillgarwch, yn cynnal ystod

o weithgareddau a gwasanaethau i helpu i wella eich profiad ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys cyngor, hyfforddiant, datblygu sgiliau, adloniant, cyfleoedd i wirfoddoli a chyflogaeth yn ystod eich amser yng Nghaerdydd yn ogystal â'ch paratoi chi at yrfa ar ôl y Brifysgol.

Rhagor o wybodaeth . . .

Llety

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.caerdydd.ac.uk/residences

Gallwch hefyd wyllo ffilm ar-lein ar:

www.youtube.com/watch?v=hxzX-dYlFB8

Undeb y Myfyrwyr

facebook.com/cardiffstudents

snapchat.com/add/cardiffstudents

instagram.com/cardiffstudents

[@cardiffstudents](https://twitter.com/cardiffstudents)

www.youtube.com/cardiffstudents

Ceisiadau

Sylwer: Mae'r holl ofynion mynediad yn gywir ar yr adeg argraffu ond gallant newid.

Gofynion Mynediad

Mae'r canlynol yn ofynion mynediad gofynnol ar gyfer ein rhaglenni gradd.

I weld gofynion mynediad penodol ar gyfer pob cwrs, ewch ar ein gwefan yn:

www.caerdydd.ac.uk/healthcare-sciences

Gofynion Mynediad Anacademaidd

Disgwylir i'r ymgeiswyr ar gyfer ein holl raglenni gael dealltwriaeth o'r proffesiwn perthnasol, meddu ar sgiliau cyfathrebu da ac arddangos gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dim. Bydd angen iddynt ddangos cymhelliant cryf ac ymrwymiad i ddarparu gofal iechyd tosturiol ardderchog yn eu priod feysydd.



Yna bydd gofyn i bob ymgeisydd sy'n derbyn cynnig brofi cymeriad da drwy wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae angen datgan unrhyw beth fydd yn cael ei ddatgelu gan y gwiriad fel rhan o'r broses dderbyn.

Bydd hefyd angen i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau holiadur iechyd cyn cofrestru, a

asesir yn annibynnol gan Adran Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol.

Mae'r canlynol yn ofynion mynediad gofynnol ar gyfer ein rhaglenni gradd.

I weld gofynion mynediad penodol ar gyfer pob cwrs, ewch ar ein gwefan yn:

www.caerdydd.ac.uk/healthcare-sciences

Rhaglen	Gofynion TGAU	Safon Uwch
Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu	5 gradd TGAU gradd A-C / graddau 8-4 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a dau bwnc gwyddoniaeth sengl neu wyddoniaeth gwobr ddwbl.	BBB Mae Gradd B mewn pwnc Gwyddoniaeth Safon Uwch yn ofynnol.
Nyrsio: Oedolion, Plant, Iechyd Meddwl	5 TGAU, gradd A-C/graddau 8-4, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	BBB (dim pynciau penodol)
Bydwreigiaeth	5 TGAU, gradd A-C/graddau 8-4, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	ABB (dim pynciau penodol)
Therapi Galwedigaethol	5 TGAU, gradd A-C/graddau 8-4, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	ABB (dim pynciau penodol)
Ymarfer Gofal Llawdriniaethol	5 TGAU, gradd A-C/graddau 8-4, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	BCC (dim pynciau penodol)
Ffisiotherapi	7 TGAU, gradd A-C/graddau 9-4, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth.	AAB Rhaid cael o leiaf gradd B mewn Bioleg neu Fioleg Ddynol.
Radiotherapi ac Oncoleg	5 gradd TGAU gradd A-C / graddau 8-4 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, Mathemateg a dau bwnc gwyddoniaeth sengl neu wyddoniaeth gwobr ddwbl.	BBB Mae Gradd B mewn pwnc Gwyddoniaeth Safon Uwch yn ofynnol.

Ceisiadau *parhad*

Rhaglen	Bagloriaeth Cymru	Rhyngwladol Bagloriaeth	Mynediad	BTEC
Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	Dylid cyflawni 33 o bwyntiau ac mae'n rhaid cynnig o leiaf un pwnc gwyddoniaeth ar radd 6 Lefel Uwch	Mae'n rhaid i fynediad i'r Diplomâu Addysg Uwch fod â sylfaen academiaidd dda yn hytrach na sylfaen o sgiliau ymarferol. Caiff myfyrwyr sy'n dilyn Diploma Mynediad at Addysg Uwch a gymeradwywyd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ASA (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch) e.e. Mynediad at Wyddoniaeth, eu hystyried cyhyd â bod digon o gynnwys Ffiseg yn eu cwrs Mynediad, NEU fod ganddynt radd C neu uwch yn eu Ffiseg TGAU. Rhaid i'r dystysgrif gael ei chyflwyno gan AVA (Asiantaeth Dilysu Awdurdodedig) gan gynnwys y wybodaeth berthnasol a logo cydnabyddedig. Bydd angen i chi lwyddo mewn 60 o gredydau yn gyffredinol, i gynnwys o leiaf 45 o gredydau ar lefel 3. Mae'n rhaid i 27 o gredydau lefel 3 fod ar radd rhagoriaeth yn elfennau gwyddonol y Diploma, ac 18 o'r credydau lefel 3 ar radd teilyngdod. Mae'r gofyniad hwn yn destun adolygiad parhaus a byddai yn ôl disgrisiwn y Tiwtor Derbyn.	BTEC Diploma Cenedlaethol Estynedig BTEC Gwyddoniaeth a BTEC Astudiaethau Iechyd – DDM
Nyrsio: Oedolion, Plant, Iechyd Meddwl	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	33 o bwyntiau. Cewch fanylion ar y wefan	Rhaid i'r myfyrwyr gynnig cwrs lefel diploma sy'n seiliedig ar gredydau nyrsio neu iechyd ac wedi'i ddilysu gan Rwydwaith y Coleg Agored. Dylid llwyddo yn y cwrs hwn gyda 27 rhagoriaeth a 18 teilyngdod o leiaf, y mae'n rhaid iddynt ddod o'r rheolau cyfuno a chredyd. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dilyn cwrs rhifedd ar Lefel 2 fel rhan o'r Rhaglen Mynediad neu raid iddynt gynnig cymhwyster mathemateg amgen megis TGAU mathemateg gradd C neu uwch. Sylwer: Mae Cyrsiau Mynediad Dysgu o Bell yn dderbyniol i'r Ysgol ar yr amod eu bod yn gynnwys asesiadau a welir megis drwy Skype.	Dylid llwyddo yn y Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Iechyd gydag o leiaf DDM fel y dyfarniad terfynol. Dylid llwyddo mewn BTEC yn y Blynnyddoedd Cynnar gyda DDD fel y dyfarniad terfynol. Gellir ystyried Diplomâu Cenedlaethol BTEC perthnasol eraill.
Bydwreigiaeth	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	34 pwynt. Cewch fanylion ar y wefan	Rhaid i'r myfyrwyr gynnig cwrs lefel diploma sy'n seiliedig ar gredydau nyrsio neu iechyd ac wedi'i ddilysu gan Rwydwaith y Coleg Agored. Dylid llwyddo yn y cwrs hwn gyda 30 rhagoriaeth a 15 teilyngdod o leiaf, y mae'n rhaid iddynt ddod o'r rheolau cyfuno a chredyd. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dilyn cwrs rhifedd ar Lefel 2 fel rhan o'r Rhaglen Mynediad neu raid iddynt gynnig cymhwyster mathemateg amgen megis TGAU mathemateg gradd C neu uwch. Sylwer: Mae Cyrsiau Mynediad Dysgu o Bell yn dderbyniol i'r Ysgol ar yr amod eu bod yn gynnwys asesiadau a welir megis drwy Skype.	Dylid llwyddo yn y Diploma Cenedlaethol mewn Astudiaethau Iechyd gydag o leiaf DDM fel y dyfarniad terfynol. Dylid llwyddo mewn BTEC yn y Blynnyddoedd Cynnar gyda DDD fel y dyfarniad terfynol. Gellir ystyried Diplomâu Cenedlaethol BTEC perthnasol eraill.

Rhaglen	Bagloriaeth Cymru	Rhyngwladol Bagloriaeth	Mynediad	BTEC
Therapi Galwedigaethol	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	Dylid cyflawni 35 o bwyntiau ac mae'n rhaid cynnig o leiaf un pwnc ar radd 5 Lefel Uwch.	Rhaid i'r myfyrwyr gynnig cwrs lefel diploma sy'n seiliedig ar gredydau Nyrsio neu lechyd ac wedi'i ddilysu gan Rwydwaith y Coleg Agored. Pasio gydag isafswm o 60 credyd i gynnwys 30 credyd ar lefel 3 ar radd Rhagoriaeth a 15 credyd ar lefel 3 ar radd Teilyngdod.	BTEC Diploma Cenedlaethol Estynedig BTEC Gwyddoniaeth a BTEC Astudiaethau lechyd – DDM
Diploma Ôl-raddedig mewn Therapi Galwedigaethol	Mae'r cwrs yn llwybr carlam 2 flynedd ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes â gradd. Wedi'i ddilysu gan y Cyngor Proffesiynau Gofal ac lechyd (HCPC) a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, mae'r cwrs yn cyfateb i raglen BSc 3 blynedd ac fe'i cyflawnir ar lefel academiaidd uwch.			
Ymarfer Gofal Llawdriniaethol	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	Dylid cyflawni 32 o bwyntiau ac mae'n rhaid cynnig o leiaf un pwnc ar radd 5 Lefel Uwch.	Rhaid i'r myfyrwyr gynnig cwrs lefel diploma sy'n seiliedig ar gredydau Nyrsio neu lechyd ac wedi'i ddilysu gan Rwydwaith y Coleg Agored. Llwyddo mewn Nyrsio/lechyd/Gwyddorau/AU a bod wedi cael o leiaf 21 teilyngdod a 24 rhagoriaeth ar Lefel 3.	BTEC Diploma Cenedlaethol Estynedig/Tystysgrif mewn Gwyddoniaeth neu Astudiaethau lechyd BTEC Diploma Cenedlaethol Estynedig mewn Gwyddoniaeth neu Astudiaethau lechyd – DDM
Ffisiotherapi	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	Dylid cyflawni 36 o bwyntiau ac mae'n rhaid cynnig Bioleg ar radd 6 Lefel Uwch.	Rydym yn derbyn Mynediad at Wyddoniaeth a Mynediad at Ffisiotherapi. Dylid cynghori myfyrwyr i gysylltu â'r ysgol am eglurhad. Pasio 60 credyd yn gyffredinol, gyda 45 credyd ar lefel 3, i gynnwys 36 credyd gyda Rhagoriaeth (gydag o leiaf 18 mewn bioleg) a 9 credyd yn Teilyngdod. Mae hyn yn ychwanegol at ofynion mynediad TGAU.	Byddwn yn derbyn y Diploma Cenedlaethol Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol ar DDD neu uwch yn unig fel cymhwyster annibynnol. Gellir ystyried cyfuniadau eraill ond dylai ymgeiswyr gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol cyn cyflwyno cais.
Radiotherapi ac Oncoleg	Derbynnir Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru yn lle un pwnc Safon Uwch (ar y graddau a restrir) ac eithrio unrhyw bynciau penodol.	Dylid cyflawni 33 o bwyntiau ac mae'n rhaid cynnig o leiaf un pwnc gwyddoniaeth ar radd 6 Lefel Uwch.	Mae'n rhaid i fynediad i'r Diplomâu Addysg Uwch fod â sylfaen academiaidd dda yn hytrach na sylfaen o sgiliau ymarferol. Caiff myfyrwyr sy'n dilyn Diploma Mynediad at Addysg Uwch a gymeradwywyd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ASA (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch) e.e. Mynediad at Wyddoniaeth, eu hystyried cyhyd â bod digon o gynnwys Ffiseg yn eu cwrs Mynediad, NEU fod ganddynt radd C neu uwch yn eu Ffiseg TGAU. Rhaid i'r dystysgrif gael ei chyflwyno gan AVA (Asiantaeth Dilysu Awdurdodedig) gan gynnwys y wybodaeth berthnasol a logo cydnabyddedig. Bydd angen i chi lwyddo mewn 60 credyd yn gyffredinol, i gynnwys o leiaf 45 credyd ar lefel 3. Mae'n rhaid i 27 o gredydau lefel 3 fod ar radd rhagoriaeth yn elfennau gwyddonol y Diploma, ac 18 o'r credydau lefel 3 ar radd teilyngdod. Mae'r gofyniad hwn yn destun adolygiad parhaus a byddai yn ôl disgrisiwn y Tiwtor Derbyn.	BTEC Diploma Cenedlaethol Estynedig BTEC Gwyddoniaeth a BTEC Astudiaethau lechyd – DDM

Sylwer:

Ni chewch ohirio'ch mynediad i'r rhaglen Fydwreigiaeth a Nyrsio Plant.

Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol, Meddwl yn Feiriadol na Dinasyddiaeth.

Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd: Tystysgrif Addysg Uwch mewn Gofal Iechyd Nyrsio Addysg Gweithiwr Cymorth – Mae'r cwrs hwn wedi'i fapio i flwyddyn un cwricwlwm Nyrsio Cymru Gyfan. Felly, mae'n cynnig cyfle i wneud cais i symud ymlaen i ail flwyddyn cwrs nyrsio ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus. Am ragor o wybodaeth, eostiwhch: HCAREAdmissions@caerdydd.ac.uk

Ceisiadau *parhad*



Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a'n gweithgareddau.

Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n seiliedig ar urddas, cwrteisi a pharch, heb unrhyw wahaniaethu. Rydym yn cydnabod hawl pob unigolyn i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym wedi ymrwymo i wella cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd am feithrin perthynas dda â grwpiau gwahanol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.cardiff.ac.uk/public-information/equality-and-diversity

Yr Iaith Gymraeg

Boed ydych eisoes yn siarad Cymraeg neu'n awyddus i ddysgu, gallwn eich cefnogi i ddatblygu eich sgiliau iaith Gymraeg. Mae gennym diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg – mae tiwtoriaid iaith Gymraeg hefyd yn hapus i weithio'n ddwyieithog. Gallwch hefyd sefyll arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau yn Gymraeg.

Lle bynnag y bo'n bosibl, gallwch hefyd weithio gyda mentoriaid sy'n siarad Cymraeg yn ystod rhai o'ch lleoliadau, a gweithio

gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg ar asesiadau grŵp.

Rydym hefyd yn cyfeirio at gyfleodd i ddysgu Cymraeg o'r newydd drwy gynllun 'Cymraeg i Bawb' y Brifysgol neu ffyrdd eraill y gallwch wella neu gynnal y sgiliau iaith Gymraeg sydd eisoes gennych.

Cysylltwch â'r Tim Iaith Gymraeg i gael gwybod rhagor:

Ffôn: **+44 (0)29 2068 7798**

Ebost: gofaliechydymraeg@caerdydd.ac.uk

Cefnogi Myfyrwyr

P'un a ydych yn defnyddio'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr neu beidio, mae galonogol gwybod eu bod ar gael pe bai eu hangen nhw arnoch. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr, ond mae gennym amrywiaeth o wasanaethau os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch. Megis;

- Y Gwasanaeth Cyngor ac Arian
Ebost: adviceandmoney@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
- Cefnogaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
Ebost: careers@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
- Y Gwasanaeth Lles a Chwnsela
Ebost: wellbeingandcounselling@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44 (0)29 2087 4966**
- Y Feithrinfa
Ebost: creche@caerdydd.ac.uk

- Cefnogaeth Anabledd a Dyslecsia
 - Ebost: disability@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
 - Ebost: dyslexia@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44(0) 29 2087 4844**
- Canllawiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
www.caerdydd.ac.uk/study/student-life/student-support
- Cymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol
Ebost: iss@caerdydd.ac.uk
Ffôn: **+44 (0)29 2087 6009**
- Cefnogaeth ar ymarfer eich crefydd
Ebost: chaplaincy@caerdydd.ac.uk
- Cefnogaeth Cynllun mentor Myfyrwyr gan eich cymheiriaid
www.caerdydd.ac.uk/study/student-life/student-support
- Cefnogaeth y Tim Bywyd Preswyl
www.caerdydd.ac.uk/study/student-life/student-support

Myfyrwyr aeddfed

Mae'n bosibl y bydd rhai ohonoch wedi cymryd blwyddyn i fwrdd i wirfoddoli a theithio'r byd, tra bo llawer o fyfyrwyr yn hŷn na 30 oed ac wedi gweithio, cael morgais neu gyfrifoldeb teuluol. Rydym yn ceisio sicrhau eich bod chi'n teimlo'n rhan o'r teulu o'r diwrnod cyntaf yn ogystal â deall efallai bod gennych flaenoriaethau a chyfrifoldebau eraill.



Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylchred dderbyn Mynediad 2020, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan www.caerdydd.ac.uk cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.



Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prospectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn, gellir ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell gyrfaoedd i eraill ei ddefnyddio.

Diolch yn fawr.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Sut i ddod o hyd i'r Ysgol

Lleolir yr Ysgol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan y Brifysgol.

Mae Campws Parc y Mynydd Bychan yn rhannu safle 53 erw gydag Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae ganddo 900 o welyau ac felly mae'n un o'r mwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Allwedd

-  Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
-  Tŷ Eastgate
-  Y Brifysgol ac adeiladau'r GIG
-  Preswylfeydd myfyrwyr

Gellir trefnu i'r prospectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**

Ebost: **RobertsL9@caerdydd.ac.uk**

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

I gael gwybod mwy am Ysgol y
Gwyddorau Gofal Iechyd, ewch i'n
gwefan:
www.caerdydd.ac.uk/gwyddorau-gofal-iechyd

Cysylltu â ni

Ffôn:

029 2068 7538

Ebost:

HCAREAdmissions@caerdydd.ac.uk

Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
Prifysgol Caerdydd
Campws Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd CF14 4XN

Cadw mewn cysylltiad



prifysgolCdydd



@CUHealthSci

Bywyd myfyrwyr

Oes gennych chi gwestiynau am
fywyd myfyriwr?
Cewch atebion yn:

**[www.caerdydd.ac.uk/
studentbloggers](http://www.caerdydd.ac.uk/studentbloggers)**

Hoffech chi gael gwybod rhagor am
fywyd ym Mhrifysgol Caerdydd? Mae
ein myfyrwyr sy'n ysgrifennu blogiau
yn cofnodi eu profiadau ac yn fodlon
ateb eich cwestiynau.

Mae'r rhain yn fyfyrwyr go iawn sy'n
astudio amrywiaeth o gyrsiau. Maen
nhw yma i ateb unrhyw gwestiwn
sydd gennych am fywyd yng
Nghaerdydd. Sut beth yw diwrnod
arferol? Pa glybiau a chymdeithasau
sydd yno? Ydy'r sin gerddorol yng
Nghaerdydd o unrhyw werth? Gall
fod am bron unrhyw beth.

